

Radio Bethlehem



Sioe Bypedau Nadolig gan Andy Hughes
Cyfieithwyd gan Dafydd Timothy

Radio Bethlehem

Cast:

Gwyn/Gwen y gofalwr

Actor

Pypedau:

Dai Ddim

y technegydd

DJ Don

sy'n creu "Bethlehem Llon"

Baracaws

gŵr y gwesty

Bryn

y bugail

Tony

y ddafad

Heulwen Haf

merch y tywydd

Camilla

camel

Camel 2

camel arall

Camel 3

camel arall eto

Lleisiau dros y ffôn:

Galwr 1- Glenys

Galwr 2- Moc

Galwr 3- Gwyneth

Galwr 4- Serena

O.N. Lleisiau'r galwyr trwy gytundeb!

Efallai gallwn ni anfon traciau cefndir 2 o'r ganeuon i chi a hybysebion ayb.

Cysylltwch ag Andy Hughes ar 07968 826401 neu e-bost saintygymuned@btinternet.com

Tîm o 5

Technegydd

A: Gwyn/Gwen, Heulwen Haf, Galwr 2, Galwr 4, Sacsoffonydd,

B: Dai Ddim, Bryn, Camel 2, Galwr 1,

C: DJ Don, Camel 3,

CH: Camilla, Baracaws, Tony, Galwr 3,

Tîm o 6

Technegydd

A: Gwyn/Gwen, Galwr 3, Sacsoffonydd,

B: Dai Ddim, Heulwen Haf, Galwr 1, Galwr 4,

C: DJ Don, Camel 3,

CH: Camilla, Baracaws, Tony,

D: Bryn, Camel 2, Galwr 2,

(Goleuadau i fyny i ddangos set sy'n stiwdio radio gyda meic blewog anferth yn ganolog a chefnidir sy'n cynnwys golau "ar-awyr" – heb ei oleuo ar y pryd - ac amryw gerlach technegol! Daw Gwyn/Gwen y gofalwr I fewn dan chwibanu "Dymunwn Nadolig Llawen" tra'n sgubo'r llawr gyda brwsh anferth. Mae'n anelu tuag at ganol y set cyn sylwi ar y plant).

Gwyn/Gwen: Ooo! Helo! (Gan obeithio y daw ymateb).

Croeso i'n gorsaf radio. Dwi'n synnu eich gweld chi yma. Does 'na ddim digon o le i gymaint o griw a hyn fel arfer. Ond dyna ni – dyw pethau ddim fel ag y buon nhw – mae fel tase nhw'n fodlon gadael unrhyw riff-raff i fewn dyddiau 'ma!

Gwyn/Gwen ydw i. Pwy dych chi, 'te? (Gobeithio eto y gwnant ymateb). Siwr eich bod i gyd yn meddwl be' dwi'n gwneud fan hyn. Wel, yma i gadw'r lle yn lân ydw i – ddim yn waith hawdd alla i ddweud wrthoch chi. Mae bob math o bobl blêr, budr, drewllyd yn y stiwdio – a dim ond y DJ's yw'r rheini! Wedyn, dyna i chi'r ymwelwyr, y cynhyrchydd-y 'Bos' (mewn acen posh), Glenys y ddynes-gneud-paned a'r staff technegol.

Mae'n waith caled clirio ar ôl criw fel'na, coeliwch fi.(Mae'n ail-ddechrau 'sgubo). Ond 'na fo, rhaid imi ddal ati cyn i DJ DON ddod i gyflwyno ei sioe bore/pnawn/heno 'ma(dibynnu ar amser y perfformiad). Dydi DJ DON ddim yn gallu dioddef os na fydda i wedi gorffen fy ngwaith glanhau cyn iddo gyrraedd. Mae'n cwyno fod y llwch yn mynd ar ei chest ac yn effeithio ar ei berfformiad! Huh, cheeks – dyna i chi gywilydd – faswn i'n d'eud mai'r llwch llif yn ei ben o yw'r bai am ei berfformiad!

(Daw Dai y technegydd i fewn a stopio wrth weld Gwyn/Gwen. Mae G. yn herian saethu Dai gyda'i frws ac mae Dai yn herian marw cyn neidio i fyny ac mae'r ddau ohonynt gyda'i gilydd yn dweud ...)

Dai/G.: Dim ond Herian!!

Dai: Bore/pnawn/noswaith (d)da, G.

G: Helo, Dai. (At y gynulleidfa) Dyma Dai – fo 'di'r technegydd.

Dai: Iep, fi ydi o! Dai ydi'r enw – Dai Ddim! Be' ti'n g'neud, G.?

G.: Dwi'n 'sgubo'r lle 'ma cyn y rhaglen radio nesa'.

Dai: Wel, 'sa'n well iti frysio. Ti'n gwybod sut fydd DJ DON os wyt ti'n dal yma pan ddaw o 'fewn.

G.: Ydw, wir – ro'n i'n d'eud hynny wrth y plant 'ma rwan.

Dai: Ac mae ganddo fo sioe arbennig heddiw gyda gwesteion/pobl arbennig a phob math o bethau.

G.: Am be' mae'r sioe?

Dai: Rhaglen am y babi 'na gafodd ei eni yn y stabl – ti'n cofio, yr un tu cefn i Westy'r Palas Diner, y gwesty un seren lawr Lôn Cae Golau?

G.: O, ydw, dwi'n cofio. Bachgen bach oedd o ynde? Tua deng mlynedd yn ôl erbyn hyn, mae'n siwr.

Dai: Deng mlynedd yn union. Pan na faset ti'n aros i glywed yr hanes? Mae rhai o'r yno ar y pryd yn dod i'r stiwdio i adrodd eu hatgofion.

G.: W! Da iawn. Dydi pethau fyth 'di bod run fath ers hynny. Mae fel tase'r babi wedi troi popeth ben-i-lawr yma yn Jeriwsalem.

(Cerddoriaeth y gân 'Troi Bethlehem ben-i-Lawr' yn cychwyn. Dai a G. yn canu gyda chymorth dwy gamel sy'n ymddangos ar ben y set).

TROI BETHLEHEM BEN-I-LAWR.

Cân:

Un,dau, tri, mwy, la la la la la la!

1. Cyfri medd Rhufain – pobl fel morgrug 'rhyd lle;
Pob gwesty'n llawn – nunlle i aros 'n y dre'
A dal i ddwad – o'r Gogledd, y Dwyrain a'r De.
(ond) Iesu, Iesu – yn troi Bethlehem ben-i-lawr.
2. Un noson mewn stabal – nid 'stafell mewn palas mawr drud,
Yng ngwellt y preseb – nid gwely bach cynnes a chlyd,
I Mair a Joseff fe anwyd Gwarddwr y byd –
Iesu, Iesu – yn troi Bethlehem ben-i-lawr.
3. Daeth y bugeiliaid o'r bryniau cyn toriad y wawr,
Roedd neges yr angel wedi eu dychryn yn fawr;
Ond o flaen y baban yn hapus addolant yn awr.
Iesu, Iesu – yn troi Bethlehem ben-i-lawr.

Iesu – daeth newid (byd) pan anwyd Di:
Iesu – fe doddaist fy nghalon i.
Iesu, Iesu – yn troi Bethlehem ben-i-lawr.
– Yn troi Bethlehem ben-i-lawr.

(Ar ddiwedd y gân, y camelod yn diflannu)

Dai: Gwell imi ddechrau ar 'ngwaith – dwi'n meddwl imi glywed DJ DON ar ei ffordd.

G.: Wel, os felly, gwell i minnau ddiffannu. Dwi'm isho bod ar fai am ddifetha ei berfformiad – ha! – rwtsh!

(Mae'r ddau yn gadael – i wahanol gyfeiriadau).

Golygfa 2

Radio Bethlehem

(Cyn gynted ag y bo'r set yn wag, daw DJ DON i fewn)

Don: Rwan 'ta, oes 'na unrhyw un yma? Dim golwg o'r hen G. 'na, diolch byth - na dim llwch 'chwaith— bydd fy llais bach i yn saff am ddiwrnod arall felly! Ond mae'n rhaid imi gael technegydd, lle bynnag y mae o.

(Clywir llais Dai – ychydig yn aneglur)

Dai: Fama dw i, Dan.

Don: Sgiws mi, ond DJ DON i chi, Dai. Lle wyt ti?

Dai: Yn yr ystafell reoli.

(Don yn edrych a chwilio)

Don: Fedra i mo dy weld di.

Dai: Oherwydd mod i tu fewn i'r prif beiriant trosglwyddo. Problem fach gyda'r signal – roedd o'n dod drosodd yn rhy glir.

Don: Be' ti'n feddwl, RHY glir? Dyna be' s'isho arnon ni – paid â phonsio efo fo rhag ofn iti neud rhywbeth gwirion a fydd o'n dda-i-ddim wedyn.

Dai: Na, fi 'di Dai Ddim!

Don: Cywir – da ni i gyd yn gwybod hynny. Tyrd o 'na allan o fanna rwan ddigon sydyn – mae'r rhaglen ar fin cychwyn.

(Clywir y 'countdown' o'r cefn: "Cyfri lawr – pump, pedwar, tri, dau, un ... ar yr awyr"; daw'r golau 'ar-awyr' ymlaen a chlywir jingl Don – "Bethlehem Llon gyda DJ DON")

Don: Helo, ffans a chrrrrr-oeso i raglen wych heddiw ar Bethlehem Llon gyda DJ Don. Oes gynnwys ni sioe anhygoel i chi heddiw !

(Camel 2 yn ymddangos)

Cam2: Dwi'm yn gwbod. Oes gynno chi sioe anhygoel inni heddiw? (mae'n gadael)

Don: O! Oes, siwr iawn! Heddiw fe fyddwn ni'n cofio be' ddigwyddodd yma ym Methlehem union ddeng mlynedd yn ôl pan weddnewidiwyd hanes ein dinas am byth ar ôl geni babi bach yn y stabl tu cefn i Westy'r Palas Diner. Ond yn gyntaf, beth am air bach gan ein noddwyr.

(Clywir Hysbys 1)

Hys.1: 'Da chi 'di blino? Dyheu am newid bach? Chwilio am gyfle i ddianc am 'chydig ddyddiau? 'Sdim angen edrych yn bellach! Dewch i Fethlehem yng nghefn gwlad hyfryd Jiwdea. Cofwch ein harwydd-air: " Pwy bynnag ddaw – boed haul neu law – bydd lle bob tro – o fewn ein bro". Felly, ffoniwch Bwrdd Croeso Bethlehem ar Bethlehem 323232.

Don: Dyma ni ar Radio Bethlehem - Bethlehem Llon gyda DJ Don. Fy ngwestai cyntaf heddiw, yma i ddweud wrthon ni am yr hyn ddigwyddodd yma ym Methlehem union ddeng mlynedd yn ôl, mae perchennog Gwesty'r Palas Diner, yr un, yr unig un Mr. Baracaws bap Gwyn.

(Daw Baracaws i fewn)

Radio Bethlehem

Don: Croeso i'r rhaglen Baracaws.

B.: Diolch yn fawr iawn. Falch o fod yma. Lle bach reit ddel gen ti fama.

Don: Er ... ie, diolch Baracaws – mae ganddoch chi enw ..er .. diddorol.

B.: Nagoes!

Don: Wel, dwi'm yn nabod unrhyw un arall efo'r fath enw. Barnabas ie, ond ...

B.: Barabws !?! Rwan, dyna be'di enw rhyfedd! Mae gen i enw ddigon cyffredin – a Baragwyn oedd

enw 'nhaid; Baratê oedd enw 'nhad; Baramêl, Baramenyn a Barajam ydi enw'r plant a dwi'n gobeithio y bydd Barambyth yn y teulu – 'na ni, ti'n gweld, enw cyffredin iawn!

Don: Errrm ... mae'n amlwg eich bo'chi'n hoffi bara yn eich teulu chi. Mae'n haws os ga'i 'ch galw chi'n Baz?

B.: O cei.

Don: Chi oedd perchennog Gwesty Palas Diner yma ym Methlehem 10 mlynedd yn ôl, ynde?

B.: Cywir.

Don: Dwedwch wrthon ni hanes y noson gafodd y babi ei eni acw y eich stabl.

B.: Wrth gwrs. Roedd y ddinas yn berwi efo pobl – wedi dod yno o bob man i gofrestru i'r Rhufeiniaid. Doedd fawr o neb yn rhyw hapus iawn yn gorfod teithio mor bell ond roedd y rhan fwyaf yn ddigon balch o weld yr hen le unwaith eto.

Don: Felly, roedd y rhain i gyd wedi eu geni a'u magu ym Methlehem rhywdro?

B.: Wel, unai y nhw neu eu teuluoedd. Beth bynnag, roedd pob gwesty yn llawn dop – grêt i fusnes, cofiwch – ond roedd hi mor brysur fel bod rhesi o bobl yn cur oar y drws – blaen a'r cefn – yn gofyn am le i aros. Fuodd raid imi droi bron pawb yn ôl ... onibai am yr un cwpwl 'ma.

Don: Pam hynny – pam y nhw yn arbennig?

B.: Oherwydd ei bol hi, y wraig ifanc! Roedd hi'n anferth fel sach o datws – roedd hi'n disgwyl babi – a hynny'n fuan hefyd. Felly, deimlais i drostyn nhw a chynnig y stabl iddyn nhw orffwys.

Don: Dyna garedig ohonoch chi, Baz. Peidied neb â deud nad yw pobl Bethlehem yn rai clên.

B.: Rwy'ti'n torri a 'nhraws i o hyd.

Don: Sori!

B.: Fel o'ni'n deud ...yy... be' o'ni'n deud? O, ie, aeth y pâr bach tawel 'ma i aros yn fy stabl. A choeliwch chi byth – yn ystod y nos – wnaeth y ferch, Mair oedd ei henw, roi genedigaeth i fachgen bach – Iesu – a dyma nhw'n ei roi i orwedd ar y gwair yn y preseb lle mae'r gafr a'r asyn yn bwydo fel arfer.

Don: Diolch, Baz – am hanes i adrodd, ynde? Rwan, mae ‘na ddwsinau o bobl yn ffonio’r orsaf radio gyda’u cwestiynau – draw â ni at y llinellau ffôn. Daw’r alwad cyntaf gan Glenys o ben pella’r ddinas – ydy chi yna Glen?

Galwr1: Ydw, dwi yma Don.

Don: Be’di’ch cwestiwn i Baracaws?

Gal1: Helo, Baracaws.

B.: Helo, Glenys, be’di’ch cwestiwn?

Gal1: Poeni oeddwn i am yr anifeiliaid – gawson nhw chwarae teg? Dwi’n aelod brwd o Gymdeithas Amddiffyn Camelod ac Asynnod Palesteina Wledig ac am wneud yn siwr nad oedden nhw wedi eu styrbio gormod.

Don: Bobl bach, dyna i chi lond ceg!

Gal1: Wel, mae’n haws inni alw’n hunain yn CACAPW yn fyr – a dwi’m yn meddwl fod llond ceg o hwanna’n mynd i roi llawer o flas ar eich cinio!

B.: O, dewch imi eich sicrhau. Chafodd ‘run o’r anifeiliaid unrhyw niwed fel canlyniad i’r Iesu’n cael ei eni. Fe ddois i â digon o fwcedi sbâr trwodd o’r gegin er mwyn i bob un gael bwyd, gan fod Iesu yn y preseb.

Gal1: Diolch am hynny, ond beth am yr holl sŵn a stŵr, yr ymwelwyr diarth ... doedden nhw ddim yn ofnus?

B.: Fase chi wedi meddwl hynny, on’ fasech?

Don: Wel, dyna pam fod Glenys wedi ffonio, yn’de!

B.: Nid fel’na fuodd hi. Er fod ‘na gymaint o fynd a dod, roedd ‘na ryw dawelwch hyfryd o amgylch y stabl. Yn wir, wnaeth y teimlad yma ymestyn reit drwy’r gwesty a deud y gwir. Cofiwch chi, fe glywais i un o’r bobl yn dweud rhywbeth fod Iesu yn Dywysog Heddwch – felly roedd pethau’n gwneud rhyw fath o synnwyr.

Don: Diolch am ffonio, Glenys. Nesa’, mae gynnon ni Moc o’r fferm foch. ... Moch, yy, sori ...Moc, pa gwestiwn sy gynnoch chi i Baz?

Gal2: Helo, wel, meddwl o’ni - sut fath o fabi oedd o?

Don: Cwestiwn da, Moc!

B.: Ie, cwestiwn da iawn. Mewn ffordd, roedd O’n edrych jest fel unrhyw fabi arall – pen bach crwn, trwyn bach smwt, bysedd bach ciwt ac yn y blaen, ond roedd O’n wahanol hefyd.

Don: Ym mha ffordd?

B.: Anodd deud, wir – methu rhoi ‘mys arno fo ... wel, do, fe gês i roi fy mys, fy llaw yn ysgafn ar ei ben ond methu rhoi ‘mys ar beth oedd yn wahanol – rhywbeth arbennig, dyna i gyd – ddim fel yr un babi arall am wn i.

Don: Diolch i chi, Moc, am yr alwad – nôl at y moch – bron na alla i eu hoglau nhw o’r fan hyn.

Don: A diolch o galon i chi, Baracaws – diddorol iawn – dydy chi'n sicr ddim yn Barasych heddiw! Ac i'n gwrandawyr adref, bydd Baz yn ateb mwy o gwestiynau yn fyw ar ein gwefan sgwrsio ar ddiwedd y rhaglen hon. Yn y cyfamser, beth am glywed un o senglau mwya poblogaidd y flwyddyn gyda Camilla a'i ffrindiau yn y grwp Tair Hymyp.

Radio Bethlehem

(Don a Baz yn gaadel wrth i'r gerddoriaeth gychwyn a gwelir 3 camel yn ymddangos ar ben y seti ganu'r gân: 'Ai dyma'r ffordd i weld yr Iesu?' ar y dôn: Amarillo gan Tony Christie).

Cân: 1. Pan fo'r wawr ar dorri
Draw ym Meth'lem fore 'Dolig,
Garwn i fod yno
(I) weld y babi'n gorwedd yn fanno.

Yn y strydoedd swnllyd,
Llawn yw'r gwestai i gyd;
Clywch y neges hyfryd -
"Fe anwyd Crist i'r byd!"

Cytgan: Ai dyma'r ffordd i weld yr Iesu?
Dim ond stabal llwm oedd ei lety;
Preseb pren a gwellt oedd ei wely
A Mair ei fam 'n ei wyllo fo.
Dewch gyda ni i weld yr Iesu –
Mab i Dduw a anwyd mewn beudy;
Brenin nef down i'th addoli –
Tra Mair ei fam 'n ei wyllo fo.

Shalala lala lala la Shalala lala lala la
Shalala lala lala la Fe anwyd Crist yn Geidwad byd!

2. Angylion sydd yn canu:
Neges hapus iawn maen' nhw'n rhannu;
Cerddwn â'r bugeiliaid
(Dan) olau'r seren i foli y Ceidwad.
Draw o wlad 'n y Dwyrain
Daeth y doethion dri
Gyda'u drud anrhegion
At wely'n cariad bach ni.

Cytgan: Ai dyma'r ffordd

Shalala lala lala la Shalala lala lala la
Shalala lala lala la Fe anwyd Crist yn Geidwad byd!

(y 2 dro olaf)
Shalala lala lala la Mae'r Iesu'n ffrind i ti a fi !

(Ar ddiwedd y gân, mae'r 3 camel yn diflannu a Don yn dychwelyd)

Golygfa 3

Radio Bethlehem

(Clywn jingl Don eto)

Don: Wel –be’ alla’i ddweud – mae’r camelod ‘na’n siglo! Rwan, dewch inni gael gair bach gan ein noddwyr.

(Clywir Hysbys 2)

Hys2: Fasech chi wrth eich bodd yn dod i Fethlehem? Poeni na fydd ‘na ddigon o le mewn unrhyw westy ar ôl clywed am y torfeydd tro d’wytha? Ddim yn siwr p’runai i ddod yma ai peidio? Gadewch i ni, Cwmni Gwyliau Dawel Nos Bethlehem sicrhau siwrne ddiogel gyda Bysus Seren Arian ac ystafell foethus a gwely clyd i chi, yna fe gewch chi ymlacio yn heulwen a phrydferthwch y fro hanesyddol hon. Cysylltwch gyda dyddiadau a gadewch y gweddill i ni. Ffoniwch Bethlehem 575757 NAWR. ‘Da ni’n cynnig “Addewid o Wlad yr Addewid” ... bob tro!

Don: Felly, ‘mlaen â ni gyda’r sioe, - cofiwch fod Bethlehem Llon gyda DJ Don bob dydd ar ein gorsaf ni. Mae’n siwr eich bod chi’n ysu am wybod pwy yw ein person pwysig nesa’ – faswn ni’n hoffi gwybod hefyd – na, dim ond herian! ‘Dwi’n falch o groesawu i’r stiwdio rhywun arall oedd yno 10 mlynedd yn ôl pan gafodd Iesu ei eni – ddim cweit ym Methlehem ond ar y caeau tu allan – croeso Bryn Morgan, neu Bryn y Bugail – enw addas iawn ...

Bryn: (yn werinol) Diolch – wel, ia, crwydro’r **bryniau** sydd o amgylch y ddinas yn cadw golwg ar ddefaid fy nhad, William.

Don: O! Doedd gen ti ddim defaid dy hun, felly? Rwyt ti’n ddigon hen erbyn hyn, siawns?

Bryn: Ydw, dwi’n llawn ddigon hen diolch yn fawr ond dad oedd biau nhw i gyd – a dyna fo! Ti’m wedi clywed y gân enwog? (dan ganu mewn llais mawr, gyddfodol, cefn gwlad): “ Deeefaid William Morgan, Deeefaid William Morgan; Yr hyn sy’n poeni’r ardal hon, yw Deeef.....”

Don: (yn sinicaidd, braidd) Ym....ia, wel, diolch. Nid y defaid sy’n’mhoeni! Gwell imi dorri’r unawd Eisteddfodol yma yn ei blas rhag ofn i Bryn Terfel neu Trebor Edwards ddechrau poeni neu fwy na thebyg, rhag ofn i MI boeni am ormod o alwadau ffôn yn cwyno fod fy rhaglen yn cael ei ddifetha ...

Bryn: (heb glywed) ‘Da chi isho ‘mi ganu’r penillion eraill yn y gân

Don: (yn bryderus) Na, na, na, na popeth yn iawn! Dwi ddim yn arfer chwarae caneuon mor hen â hynny ... Beth bynnag, deudwch eich hanes chi pan fu geni Iesu 10 mlynedd nôl.

Bryn: O! ‘Da chi isho imi ddeud be ddigwyddodd?

Don: Ym...wel, ydw – dyna pam y daethoch chi yma heddiw! (dan ei wynt) Bobol bach, mae un ohonom ni yma un wlannen yn brin o ‘fleece’ ddwedwn i, ac nid y fi ‘di o!

Bryn: lawn, ‘te – lle ddechreua i?

Don: (yn nawddoglyd) Ar ben y bryn, Bryn?!

Bryn: O, ia. Wel, dyna lle roeddwn i allan ar ben Cae Golau yn cynhesu wrth y tân – o, bron imi anghofio, mi elli di ychwanegu enw dau fugail arall oedd efo fi.

Don: Be’da chi’n ei feddwl, ychwanegu?

Bryn: Wel, Daf ac Owen .. Daf+(add)Owen – ti ‘di gweld hi? Daf-ad oen! Da ‘di hwanna! **Radio Bethlehem**

Don: (eto dan ei wynt) Dydi o ddim mor dwp ag mae’n edrych – neu ydi o? (wrth Bryn) Jest cadw at sgript y Nadolig cyntaf plŷs, neu fyddwn ni yma tan ‘Dolig nesa!

Bryn: lawn, bos. Roedden ni’n chwarae rownd rhif 593 o’r gêm ‘ Dwi’n Gweld Efo’m Llygad Bach I’ – roedd yn dechrau mynd yn ‘boring’ gan mai dim ond defaid welwn ni yn y nos!

Don: Mam bach, oes ‘na fywyd arall i gael deudwch!

Bryn: Mwy a’ sydyn, goleuodd pobman yn llachar o’n cwmpas ac onibai am y coblyn o sioc gawson ni, fasa’r golau wedi bod yn handi iawn i weld pethau eraill heblaw defaid i wneud y gêm yn fwy diddorol ...

Don: Paid â mwydro ...

Bryn: Eniwê, roedd ‘na ddyn tal mewn coban nos gwyn yn trio siarad efo ni.

(mae Tony y ddafad yn ymddangos yn y stiwdio gan frefu mewn manau cyfleus ac anghyfleus trwy gydol gweddill yr olygfa)

Don: O, na, be’ nesa? Bryn, dwi’n meddwl fod cael dafad mewn stiwdio yn erbyn holl reolau glendid a diogelwch.

Bryn: Paid â phoeni, dim ond Tony bach sy’ma!

Don: Tony?!

Bryn: Wel, ia – Ble(Blair) – Tony Ble - dyna ‘i gyd mae’n ei ddeud drwy’r dydd – ‘Ble’.

Don: Pam, ydi o ar goll? Achos, mi rydw i ... ar y rhaglen ‘ma bellach.

Tony: Bleeeeeeeeeeeeeeeeeeee..!

Don: Gwrand’wch – gwell i rywun ddweud wrth y belen o weu yna mai cig oen ydi fy hoff ginio dydd Sul!

Bryn: Mae’n mynd i bob twll a chornel – fe gewch chi waith ei ddal. Gadewch lonydd iddo fo, bydd yn reit dawel.

Don: Dwi rioed wedi clywed dafad tawel! Ond beth am y dyn tal mewn gwyn – yr angel – tipyn o syrpreis ichi allan yn y caeau yn y nos!

Bryn: Syrpreis, wir?(gan godi tŷn a momentum) Roedd ein llygaid ‘di popio; ein penagliniau yn cnocio; ein dannedd yn cracio ac roedden ni i gyd isho mynd i pi-pi yn ofnadwy. Ia, tipyn bach mwy na syrpreis ddeudwn i! A dyma fo’n deud wrthon NI, o bawb, y dylwn ni frysio lawr i Fethlehem gan fod Ceidwad yn cael ei eni, sef Crist yr Arglwydd.

Don: lawn, felly, beth wnaethoch chi?

Bryn: Ond dwi isho deud wrthoch chi am y côr?

Don: Y côr?

Bryn: Ia, y côr. Wedi i'r angel orffen ddweud wrthon ni bopeth am eni'r Ceidwad ac y dylen ni fynd i lawr i Fethlehem i'w ffeindio Fo wedi lapio ac yn gorwedd mewn preseb, - peth nesa', roedd 'na gôr anferth o angylion eraill dros yr awyr i gyd – fel môr o longau hwyliu - cyn belled ag y gellir gweld !

Don: Be' oeddau nhw'n ei wneud?

Bryn: 'Na chi gwestiwn twp i ofyn, da chi'm yn meddwl? Be' f'asa côr yn ei wneud? – chwarae 'concyrs ' tra'n gneud 'bunjy-jump' o'r cymylau?!?! Wel, CANU, wrth gwrs – a chanu nerth eu lleisiau bach angylaidd – rhywbeth debyg i hyn a deud y gwir

Don: (yn torri ar draws yn bryderus) Yy ... dwi WIR ddim yn meddwl fod angen

Bryn: (dan ganu'n uchel a gwael) “ Gogoniant yn y goruchaf i Dduw a heddwch ar y ddaear”.

Don: O! Diar! Dipyn o heddwch sy'isho wedi clywed hwnna!

Tony: Bleeeeeeeeeeee..!

Don: Hisht, wnei di, cyn imi ffonio'r cigydd lleol!

Bryn: Wedyn dyma fo'n dod i ben, mwya' sydyn ...

Don: (yn torri ar ei draws eto) Diolch am hynny!

Bryn: ... diflannodd pawb a phopeth, gan adael y tri ohonon ni'r bugeiliaid unwaith eto yn y tawelwch gyda'r defaid ac awyr dywyll Jiwdea. Wedi dod dros y sioc, wel ffwrdd â ni dan ruthro â'n gwynt yn ein dwrn, lawr i Fethlehem a, wir yr, jest fel ddeudodd yr angel, dyna lle'r oedd Iesu, yr Achubwr, yn gorffwys mewn preseb.

Don: Wow! Dyna i chi brofiad, Bryn. Drosodd at y llinellau ffôn. Hefo ni gyntaf mae Gwyneth o Ganolbarth Jiwdea. Helo, Gwyneth, be' di'ch cwestiwn?

Gal3: Helo, f'aswn ni'n hoffi gwybod be' oedd y defaid yn meddwl o'r holl beth?

Tony: Ble ble ble ble ble bleeeee ble ble ble ble bleble ble ... ble ble bleeeeeeee.....

Gal3: Diolch yn fawr iawn, dyna'n union be' roeddwn i'n disgwyl ei glywed. Ta-ra.

Don: Yy ... iawn ... yym ... wneith rhywun 'neud siwmpwr allan o'r ddafad wirion 'na cyn i mi golli fy swydd? Draw â ni ar frys at Serena ar lein 4 o ganol dre'. Helo, Serena.

Gal4: Helo...helo...? Helo... helo... helo? Yda chi'nglywed i? Helo, oes 'na bobl?

Don: Ydan – eich clywed yn iawn. Dewch â'ch cwestiwn.

Gal4: O, reit. Hoffwn ofyn i Bryn – oedd y siwrne 'rholl ffordd i lawr o'r brynau yn werth y drafferth? Dim ond i weld babi mewn stabl?

Bryn: O, oedd, siwr iawn. Erbyn cyrraedd, roeddem yn gyffro i gyd a hawdd anghofio eich bod mewn stabl, 'da chi'n gweld,- heblaw am yr anifeiliaid.

Don: A'r drawdod difrifol.

Bryn: Sylwais i ddim – hogiau'r wlad 'da ni – wedi arfer, 'chi'n gweld. Beth bynnag, yng nghanol y stabl oedd y blwch pren lle mae'r anifeiliaid yn bwydo fel arfer. Erbyn hyn, roedd 'na wellt ffres, glân ynddo ac roedden nhw wedi lapio'r baban mewn darnau o liain cyn ei roi i orwedd ar y gwair yn y preseb fel gwely bach. Ac roedd ei fam wrth ei ochr, wedi blino'n llwyr, druan ohoni – ond yn edrych yn hapus. A Joseff, ei gŵr, 'nôl a 'mlaen yn brysur 'neud yn siwr fod pawb a phopeth yn iawn. Roedd o'n fabi mor ddel. Mae'n siwr y b'asech chi'n disgwyl gweld rhywun arbennig oedd wedi ei eni yn Geidwad neu Achubwr y Byd, on'd b'asech?

Don: Wel, diddorol iawn, a deud y lleia, Bryn. Diolch i chi, Serena, am gwestiwn disglair i orffen. Wel, Bryn, be'ddeuda i? Mae hi wedi bod yn brofiad ... yym ... gwahanol iawn eich cael ar y rhaglen – diolch.

Tony: Bleeeeeeeeeeeeeee.....

Don: (ar ben ei dennyn) O, na. Gwrandda, mae gen i gi defaid mawr, ffyrnig adre, felly gwylia dy gynffon - mae'n amser iti fynd nôl at y mêts ar y mynydd cyn imi gael y sac.

Bryn: O, dyna ni felly, wedi gorffen – amser cinio erbyn hyn, felly mi awn ni rwan – tyrd, Tony bach. Fe alwn ni yn y canteen ar y ffordd allan.

Tony: Bleeeeeeeeeeeeeee....

Don: (ar fin torri lawr) Plis, ddim y canteen! Os wela i'r ryg ar 'roller skates' 'na UN WAITH eto, dwi'n gaddo y bydd 'na oen 'di rhostio ar y fwydlen/menu cyn imi gael nerfys brêcdown.

(Mae Bryn yn gadael ond Tony yn aros, edrych o gwmpas cyn syllu'n fgygythiol tuag at Don. Clywir llais Bryn)

Bryn: Tyrd, o'ma Tony – gâd lonydd i'r dyn bach doniol 'na – dwi'n gwybod ei fod yn falch o'n gweld ni.

(Tony yn gadael)

Don: Falch o'ch gweld chi'n MYND, ddweda i. Rwan am ragolygon y tywydd, felly draw â ni at Heulwen Haf ...Helo Heulwen.

Heulwen: Diolch Dan. Rwan, oes gynnoch chi'ch ymbarel a'ch bŵts glaw yn handi? Os oes, 'da chi yn y wlad anghywir a'r cyfandir anghywir – gwerthwch nhw ar E-Bay – 'da ni heb gael glaw yma ers 3 mis a 'da chi'n gwybod yn iawn na chawn ni ddim byd ond awyr las a gwres tanbaid yr haul am yr awr nesa, y diwrnod nesa, yr wythnos nesa a'r mis nesa. Mi fydd hi'n boeth yn y diffeithwch, boeth ar lan yr afon, boeth ar y bryniau, boeth yn y ddinas – poeth, Poeth, POETH! Mor llethol o boeth nes byddwch chi'n gallu ffrio wy ar dalcen eich taid tra ei fod yn torheulo'n yr ardd. Felly, tywydd iawn i gamelod ond os 'da chi'n bengwin, mi fydd eich siocled chi'n toddi! Mwynhewch – ond cofiwch roi digon o eli haul Ffactor 97 ac yfed digon o ddŵr. Dwi'n mynd i chwilio am fy micini! Hwyl!

(Camel yn ymddangos yn fryslog, ysgwyd ei ben yn bositif, yna'n diflannu. Heulwen hefyd yn mynd)

Don: Diolch, ac fel dwi'n deud bron bob dydd: 'Heulwen 'di hi yn dod â Heulwen i chi!' Rwan, beth am neges arall gan ein noddwyr.

(Clywir Hysbys 3)

Hys3: Ydy'ch hoff gamel yn cerdded ling-di-long? Ydy chi'n cael siwrne anghyfforddus rhwng yr

Hys3: Ydy'ch hoff gamel yn cerdded ling-di-long? Ydy chi'n cael siwrne anghyfforddus rhwng yr hymps? Ydi o'n llusgo mynd o un oasis i'r llall? Tywod rhwng ei twtsis? Rhaid i chi'n ffonio ni, Cwmni Clip-Clop Camel i roi sbonc bach sionc yn ôl yn ei gam. Gwasanaeth cyflym trin traed araf; prisiau cystadleuol. Cynnig arbennig ddiwedd Rhagfyr i deithwyr o wledydd pell: Pedoli 3 Chamel am bris 2. Galwch ni ar Bethlehem 8clip-clopclip-clop; dyna chi 8clip-clopclip-clop neu cysylltwch trwy'n gwefan www.eichcamchiyweincamni.com

GOLYGFA 4

(Don yn ail-ydddangos a chlywn ei jingl)

Don: Rwan 'te wrandawyr, gadewch imi weld pwy sydd sgen i'n westai nesa ar y rhaglen... wel, jest pan oeddwn i'n meddwl fod popeth rhyfedd wedi digwydd heddiw – lletywr egsentrig, bugail efo 'brêns' dafad a dafad heb 'frêns' o gwbl, alla i ddim credu 'mod i'n darllen hyn ond croeso i'r rhaglen ... Camilla y camel!

(Camilla yn ymddangos i gymeradwyaeth byddarol y cast)

Cam: Diolch, cariads, o, diolch, diolch.

Don: Croeso Camilla. Mae'n fraint i chi gael bod ar fy rhaglen ...

Cam: Hei, be' ti'n feddwl, y jolop?!

Don: Yym ... Mae'n fraint i MI eich cael CHI ar fy rhaglen.

Cam: Dyna 'chi welliant, cwtsh-i-cw. Rwan, be' oeddet ti'n mynd i'w ofyn?

Don: Dwi wastad wedi bod isho gwybod un peth ...

Cam: Naddo, del, wnes i fyth briodi – ddim digon o ddewis ... ond mae pethau'n edrych ar ei fyny wedi cyfarfod DJ go iawn heddiw, ynte, Donald annwyl?

Don: Nid dyma'r lle, Camilla – mae'n raglen i'r teulu – mae 'na blant yn gwranddo. Isho gofyn ers faint fuoch chi'n canu, o'n i?

Cam: O, wel, mae hynny'n hawdd – am flynyddoedd rwan. Ers imi gael cân yn fy nghalon a dau hump ar fy nghefn!

Don: Be' sgen yr hymps i wneud efo canu?

Cam: Dim byd, reali, bêbi, roedd o jest yn sowndio'n 'catchy'! ond, sôn am hymps, rhaid imi roi 'plyg' i'r grwp, 'Y Tair Hump', sef y fi, Camilla a'r ddwy arall, sef Parker a Bowles. Newydd ddychwelyd o daith llwyddiannus yn America.

Don: Ers pryd mae'r grwp wedi bod efo'i gilydd?

Cam: Wel, ers i'n tri rheolwr ni ddod at ei gilydd yn y Dwyrain a phenderfynu trefnu ein taith cyntaf yma i Fethlehem i weld Iesu ar ôl ei eni.

Don: O ble yn union yn y Dwyrain, 'te?

- Cam: (gyda 'twang' o acen canu gwlad Texas dyweder)
Dwy-rain? I'r Dwy-rain o Bahrain; i'r Dwy-rain o Bacistain;
i'r Dwy-rain o Siwdain; I'r Dwy-rain o Azerbaijan, Kasakstain, Afghanistan, Ukrain, Tehrain,
Milain a Llanrwst(neu lle bynnag mae'r ysgol/perfformiad). Gwranda, mêt, nid athrawes
Daeryddiaeth ydw i ond seren y byd pop – mae'n talent ni yn ein tonsils!
- Don: (dan ei wynt)Mae'ch brêns chi yn eich tonsils hefyd!
Dwi'n deall i chi ddilyn seren arbennig yr holl ffordd, yn chwilio am y Brenin bach newydd ei
eni. Gawsoch hyd iddo'n syth?
- Cam: Wel, cariad, er fod pawb yn gwybod mai ni ydi'r sêr ac mai Elfis yw'r brenin, roedd hon YN
seren arbennig ac mae lesu YN Frenin arbennig. Wel, wedi inni ganu mewn 'gig' Oasis ar y
ffordd, cawsom fynd am 'private audience' i balas y Brenin Herod – ddim yn 'impressed' efo
fo – meddwl lot ohono fo'i hun ac mor gas nes gneud i Saddam edrych mor ddiniwed â Sali
Mali!
- Don: Roeddech chi'n lwcus i ddianc, felly?
- Cam: Wel, fe ganom ni un o'n 'hits' iddo fo ... a chawsom ein hel allan cyn gorffen! Cheeks!
- Don: Hm! Tybed pam?
- Cam: Beth bynnag, ffwrdd â ni eto tan i'r seren aros uwchben sied wair tu cefn i ryw 'hotel'! Ond
wir i chi, yno roedd y babi Brenin gyda'i rieni - a dyna chi siwgwr candi bach del oedd O
hefyd! Cymerodd ein tri rheolwr ni anrhegion allan o'u bagiau – rhai digon od i fabi ro'n i'n
meddwl – aur a thus a myrr! "Genod", medda fi, " be mae babi isho efo petahu fel'na? Be
ddigwyddodd i'r 'good old' tegan meddal a'r 'babygro' pinc – ydy nhw wedi mynd allan o
ffasiwn?" A dyma'r tair ohono ni yn cytuno'n llwyr. Ond ddeudodd y tri dyn oedd yn galw'u
hunan yn 'ddoeth' mai anrhegion arbennig addas i frenin oedd ganddyn nhw. Wel, pwy, o'n i
i ddadlau?
- Don: Be' wnaethon nhw pan welsont y babi?
- Cam: Wel, plygu ar eu gliniau mor isel nes iddyn rhwbio'u trwynau yn y ...
- Don: Na, Camilla, dwi'm yn meddwl ein bod isho clywed! Digon i droi stumog a hithau bron yn
amser bwyd.
- Cam: Be? Rhwbio trwynau yn y TYWOD? Be sy' arnat ti? Dyle ti fand allan o'r stiwdio ma' fwy –
mae'n dechrau berwi dy ben! Ond, plygu wnaethon nhw a'i addoli. Ia, y tri dyn pwysig yma
yn ei alw'n Dywysog, yn Frenin Sanctaidd ac yn diolch i Dduw amdano gan iddo ddod i
achub y byd. Dwi'n meddwl felly ei fod O drwy'r rownd gyntaf o'r X-Factor, o leia – dim
problem!
- Don: Wel, diolch o galon Camilla. Mae'n hamser ni ar ben am heddiw ...
- Cam: Hold on, 'scrympshi bar kid' – y 'deal' efo'n hasiant ni oedd ein bod yn canu eto ar ddiwedd
y sioe. Roedd cân i lawr yn y script, 'so' cân sy'n mynd i fod, neu chei di ddim sws a 'signed
poster' o'r siwpyr-grwp.
- Don: O, mam fach, be' wnes I I haeddu diwrnod fel heddiw? lawn, wrth gwrs y cewch chi.
Wrandawyr lwcus, I ganu ni allan o'r rhaglen a finnau allan o 'job' dyma'n gwesteion
arbennig: Camilla a'r Tair Hymf (mwy o gymeradwyaeth)

(Mae Don yn diflannu a Camilla a'r 2 gamel arall yn ymddangos ar ben y set i ganu'r gân)

Arglwydd Glân – rhow'n fawl i Ti ar gân;
T'wysog Hedd daeth gobaith bywyd ynot Ti;
Frenin Ne(f) – o'r stabal yn y dre(f)
Fe agoraist ffordd at gariad Duw i mi.

O ni anwyd undyn byw – fyth yn debyg i Fab Duw;
Na, fu neb yn debyg fyth i Ti –
Iesu, O ni anwyd undyn byw fyth yn debyg i Fab Duw;
Na, fu neb yn debyg fyth i Ti.

Ceidwad byd – ond preseb oedd dy grud -
D'est o Orsedd Duw i Fethlehem islaw;
Sanctaidd Un, fe blygwn ni ein glin;
Faban gwyn, mae allwedd hanes yn dy law.

O ni anwyd undyn byw – fyth yn debyg i Fab Duw:
Na, fydd neb yn debyg fyth i Ti –
Iesu, O ni anwyd undyn byw fyth yn debyg i fab Duw;
Na, fydd neb yn debyg fyth i Ti.

(ar ddiwedd y gân, camelod yn diflannu gan adael set wag)

(Gwyn/Gwen yn dychwelyd – brws yn ei law – gyda Dai yn dilyn ymhen eiliad neu ddwy)

G: Wel, beth bynnag ddeudi di am Don, roedd honno'n dipyn o raglen heddiw!

Dai: Ac roedd popeth yn berffaith yn dechnegol, wrth gwrs.

G: Yn naturiol, fel arfer!

Dai: Diddorol oedd clywed yr holl hanes 'na am Iesu, on'd oedd?

G: Yn sicr iawn o hynny. A bod yn onest, dwi'm fel arfer yn talu fawr o sylw i'r ochr yna o bethau.

Dai: Na, dydi'r rhan fwyaf o bobl ddim callach, chwaith. Ddigwyddodd yr holl beth mor bell yn ôl.

G: Wyt ti'n credu fod o'n deud rhywbeth wrthon ni heddiw?

Dai: O, yndw, Gwyn/Gwen. Dwyt ti ddim yn meddwl y gall plentyn bach ddod i'r byd a chychwyn ei fywyd yng nghwmni angylion, doethion a seren arbennig heb fod 'na reswm pwysig iawn i'r holl beth?

G: Felly, ddylwn i dalu sylw a meddwl mwy dros yr hanes?

Dai: Siwr iawn – 'nenwedig 'radeg yma o'r flwyddyn.

G: Be' wyt ti'n ei feddwl?

Dai: Wel, dyma'r amser o'r flwyddyn lle mae pawb yn brysur yn paratoi i ddathlu ond rhwysut wedi anghofio'n llwyr y rheswm AM y dathlu – Iesu, Ceidwad ac Achubwr bob un ohonon ni, wedi ei eni mewn stabl, yma ym Methlehem gyda'r anifeiliaid a dyn y gwesty a'r bugeiliaid a phawb a phopeth.

G: (gan feddwl) Dwi newydd feddwl – roedd 'na dipyn go lew o gariad o gwmpas bryd hynny, on'd oedd?

Dai: Iep, ti'n iawn fannu. Cariad Mair a Joseff a phawb ddaeth i'w weld a mwy na hynny, y cariad ddangosodd Duw wrth anfon Ei fab, Iesu i'r ddaear yn y lle cyntaf.

G: Diolch am f'atgoffa, Dai. Hei, gwell imi symud 'mlaen gyda'r glanhau.

Dai: Mae gen i rhywfaint o drefnu i'w wneud yn y stiwdio hefyd. Wela i di, G.

G: Iawn, Dai. Gobeithio y cei di Ddolg da.

Dai: A tithau hefyd, G. Hwyl.

(Cyn ymadael, mae'r ddau yn troi at y gynulleidfa gan ddweud)

G/Dai: O .. a gobeithio y cewch chithau Nadolig gwych hefyd.

(Ffwrdd â nhw)

Y DIWEDD

Neb yn debyg i Ti

Andy Hughes a Dafydd Timothy

Musical score for the hymn 'Neb yn debyg i Ti'. The score is written in treble clef with a key signature of one sharp (F#) and a 4/4 time signature. It consists of seven staves of music with lyrics underneath. Chord symbols are placed above the notes. The lyrics are in Welsh. The score ends with a double bar line.

1. Argl- wydd Glân rhown fawl i Ti ar gân; T'wy-sog
Hedd daeth gob - aith by - wyd yn-not Ti; Fre-nin Nef o'r
sta-bal yn y dref, Fe a - gor-aist ffordd at gar-iad Duw i mi. *Cytgan* O ni
an - wyd un - dyn byw fyth yn deb - yg i Fab Duw; Na, fu
neb yn deb - yg fyth i Ti le - su O ni an-wyd un - dyn byw fyth yn
deb - yg i Fab Duw; Na, fu neb yn deb - yg fyth i Ti.

2. Ceidwad byd – ond preseb oedd dy grud -
D'est o Orsedd Duw i Fethlehem islaw;
Sanctaid Un, fe blygwn ni ein glin;
Faban gwyn, mae allwedd hanes yn dy law.